# Cofnodion Cangen y Senedd
# Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol
# 10 Rhagfyr 2024

Croeso

Croesawodd y Cadeirydd y rhai oedd yn bresennol ac agorodd y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol.

**1. Cofnodion y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol diwethaf a gynhaliwyd ar 6 Rhagfyr 2024.**

Derbyniwyd y cofnodion fel cofnod cywir.

**2. Materion sy'n codi**

Nid oedd unrhyw faterion yn codi.

**3. Unrhyw faterion brys**

Nid oedd unrhyw faterion brys i'w trafod

**4. Adroddiad gan Gadeirydd Cangen y Senedd, Rhun ap Iorwerth AS**

Nododd y Cadeirydd iddi fod yn flwyddyn gynhyrchiol i'r Gangen.

Ni fu unrhyw newidiadau yn Aelodaeth Pwyllgor Gweithredol y Gangen yn ystod y cyfnod hwn a oedd wedi cyfarfod yn ffurfiol yn ogystal â chynrychioli'r Gangen fel rhan o ymweliadau a gweithgareddau niferus.

Tynnodd y Cadeirydd sylw at rai gweithgareddau nodedig dros y cyfnod adrodd hwn, gan gynnwys y canlynol:

- Roedd yn wych gweld ein Cynhadledd Seneddwragedd Ranbarthol yn ailddechrau gyda rhaglen o dan ofal Senedd Malta lle cafodd y Senedd ei chynrychioli gan Rhianon Passmore AS a Janet Finch Saunders AS

- Roedd Senedd Ieuenctid y Gymanwlad, a gynhelir bob dwy flynedd, hefyd wedi ei chynnal eleni ac roedd y Senedd yn falch o gael ei chynrychioli gan Tegan Skyrme (cyn Aelod o Senedd Ieuenctid Cymru) yn y gynhadledd, a oedd yn cael ei threfnu eleni gan Senedd Seland Newydd yn Wellington.

- Roedd Lee Waters AS wedi'i ddewis i gynrychioli'r Gangen yng Nghynhadledd Deallusrwydd Artiffisial CPA a gynhaliwyd mewn partneriaeth â Senedd Singapore. Cafodd yr Aelodau oedd â diddordeb mewn AI eu hannog gan y Cadeirydd i ddarllen adroddiad cynhwysfawr Lee Waters.

- Roedd Natasha Asghar AS wedi cynrychioli'r Gangen yng Nghynhadledd Ranbarthol BIM eleni - profiad gwirioneddol unigryw**,** yn digwydd am y tro cyntaf ar Ynys anghysbell St Helena**.**

- Nododd y Cadeirydd ei fod ef a'r Llywydd wedi cael yr anrhydedd yn ddiweddar o gynrychioli'r Senedd yng Nghynhadledd Seneddol y Gymanwlad eleni a gynhaliwyd yn Sydney i gyd-fynd â deucanmlwyddiant Senedd New South Wales.

- Carreg filltir allweddol eleni oedd penderfyniad ein Rhanbarth BIM i sefydlu Rhwydwaith LHDTC+ ac mae Cangen ein Senedd wedi bod yn chwarae rhan flaenllaw yng nghamau cynnar y broses o lunio'r gwaith pwysig hwn. Nododd y Cadeirydd ei ddiolch yn arbennig i Adam Price AS am ei waith gyda hyn.

- Dywedodd y Cadeirydd y bu rhai ymweliadau mewnol nodedig lle'r oedd y Gangen wedi chwarae rhan weithredol. Roedd y rhain wedi cynnwys ymweliad y Llefarydd Nathalie Roy a’i dirprwyaeth o Gynulliad Cenedlaethol Quebec.

  Roedd hefyd wedi bod yn bleser eleni croesawu Seminar CPA y DU San Steffan i'r Senedd am ddiwrnod, lle daeth tua 30 o Seneddwyr a Chlercod i gynrychioli ystod o ddeddfwrfeydd datganoledig a llai o bob rhan o'r Gymanwlad, i gymryd rhan mewn rhaglen lawn ac amrywiol, lle'r oedd nifer o Aelodau'r Senedd yn cymryd rhan.

Cau

Nododd y Cadeirydd fod 2025 yn argoeli i fod yn flwyddyn brysur a chyffrous i'r Gangen

Roedd cynadleddau CPA wedi'u cynllunio yn yr Alban, Quebec, a Barbados. Y rhaglen fwyaf cyffrous a hir-ddisgwyliedig y flwyddyn nesaf, fodd bynnag, fyddai ein rhaglen ni – wrth i'r Gangen baratoi i gynnal (am y tro cyntaf ers 2014) Cynhadledd Ranbarthol Ynysoedd Prydain a Môr y Canoldir yn y Senedd ym mis Mehefin.

Diolchodd y Cadeirydd i Ysgrifenyddiaeth y Gangen am y gefnogaeth ac edrychodd ymlaen at weld diddordeb ac ymgysylltiad parhaus yr Aelodau yn y cyfleoedd hyn a chyfleoedd eraill, drwy ein haelodaeth o Gymdeithas Seneddol y Gymanwlad.

**6. Yn bresennol:**
**Aelodau Cangen y Senedd**

1 Rhun ap Iorwerth AS (Cadeirydd y Gangen)
2. Y Dirprwy Lywydd David Rees AS (Is-lywydd y Gangen)
3. Delyth Jewell MS (Pwyllgor Gwaith y Gangen)
4. Natasha Asghar AS (Pwyllgor Gwaith y Gangen)
7. Peredur Owen Griffiths AS
8. Lee Waters AS
9. Luke Fletcher AS
10. Mabon ap Gwynfor AS
11. Heledd Fychan AS

**Ysgrifenyddiaeth y Gangen:**
Manon Antoniazzi, Ysgrifennydd y Gangen, Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd
Al Davies, Ysgrifennydd Dros Dro y Gangen

Arsylwi
Gwion Evans, Swyddfa Breifat y Llywydd

**Ysgrifenyddiaeth Cangen y Senedd o Gymdeithas Seneddol y Gymanwlad.**
**Rhagfyr 2024**